

e-sgol

Cynllun Strategol 2026–2029

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Cynnwys

Ecwiti mewn Addysg trwy Dechnoleg 4

Cyflwyniad 5

Ein Gwerthoedd a'n Hegwyddorion 7

Sut Rydym yn Gweithio 8

Cyd-destun Strategol 9

Blaenoriaethau Strategol e-sgol 2026–2029 10

Fframwaith Perfformiad 14

Casgliad 20

Ecwiti mewn Addysg trwy Dechnoleg

Ein gweledigaeth yw creu ecosystem addysg gynhwysol a chydweithredol lle mae pob dysgwr, waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir, yn cael mynediad at ddysgu o ansawdd uchel drwy ddulliau ar-lein a hybrid.

Trwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol a meithrin rhwydweithiau cryf, byddwn yn grymuso dysgwyr ac ymarferwyr i wireddu eu potensial llawn mewn byd digidol sy'n esblygu'n barhaus.

Pob dysgwr. Pob rhan o Gymru. Pob cyfle.

Cyflwyniad

Mae e-sgol yn fenter genedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi dysgwyr oedran ysgol a dysgwyr ôl-16 hyd at 19 oed ledled Cymru. Trwy gysylltu darparwyr, ymarferwyr a dysgwyr drwy dechnoleg, mae'n ehangu mynediad at y cwricwlwm, yn cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cyfoethogi profiadau dysgu.

Ers ei lansio, mae e-sgol wedi tyfu i fod yn rhan allweddol o dirwedd addysg Cymru. Gwelwyd ehangu sylweddol ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd, cydweithio dyfnach rhwng awdurdodau lleol a lleoliadau addysg, a chynnydd mewn ymgysylltiad dysgwyr drwy brosiectau arloesol sy'n ymateb i anghenion y system addysg fodern.

Trwy gyfnod y cynllun hwn, bydd e-sgol yn adeiladu ar ei gryfderau presennol i ehangu cyfleoedd dysgu, lleihau rhwystrau i gyfranogiad a chryfhau gallu'r system addysg i ymateb i anghenion newidiol dysgwyr. Ein huchelgais yw cyfrannu at system addysg fwy teg, mwy cydweithredol a mwy gwydn i Gymru.



Ecwiti mewn Addysg trwy Dechnoleg

Pob dysgwr.

Pob rhan o Gymru.

Pob cyfle.

Rydym yn bodoli i...

Ehangu mynediad at ddysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i bob dysgwr

Dileu rhwystrau strwythurol sy'n deillio o leoliad daearyddol, capasiti staffio neu gyfyngiadau'r cwricwlwm

Galluogi sefydliadau i gydweithio ac arloesi

Meithrin hyder digidol ymhlith ymarferwyr a dysgwyr




Darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol cyfoes a chynhwysfawr

Darparu adnoddau adolygu o ansawdd uchel, am ddim, ar gyfer dysgwyr 14–19 oed

Paratoi dysgwyr Cymru ar gyfer addysg, cyflogaeth a chymdeithas sy'n cael eu llywio fwyfwy gan dechnoleg a modelau gweithio hybrid

Sicrhau bod Cymru ar flaen y gad ym maes dysgu hybrid ac ar-lein

Erbyn 2029, bydd llwyddiant yn golygu...




Ein Gwerthoedd a'n Hegwyddorion

Mae gwaith e-sgol yn cael ei lywio gan gyfres o werthoedd ac egwyddorion sy'n siapio ein diwylliant, ein penderfyniadau a'n darpariaeth. Maent yn adlewyrchu sut rydym yn gweithio, sut rydym yn cydweithio ag eraill a sut rydym yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at brofiadau dysgu o'r safon uchaf.

Mynediad Teg o Ansawdd Uchel

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'u hamgylchiadau neu eu lleoliad, yn gallu cael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel na fyddent fel arall ar gael yn eu sefydliad eu hunain. Mae ansawdd profiad a chanlyniadau dysgu wrth wraidd pob agwedd ar ein gwaith.



Cydweithredol ac Ymatebol

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws ecosystem addysg Cymru, gan gydweithio ag ysgolion a cholegau, awdurdodau lleol, darparwyr a rhanddeiliaid eraill i ehangu cyfleoedd a chryfhau gallu'r system. Rydym yn hyblyg ac yn ymatebol, gan addasu'n gyflym i anghenion dysgwyr a'r sector wrth ragweld heriau a chyfleoedd newydd.

Arloesol ac Uchelgeisiol

Rydym yn profi modelau newydd o addysgu, dysgu a gweithio, gan herio ffyrdd traddodiadol o weithredu a chefnogi datblygiad ymarferwyr ar gyfer amgylcheddau addysgol sy'n gynyddol ddigidol a hybrid. Trwy Ddysgu Proffesiynol wedi'i dargedu, modelu byw a rhannu arferion effeithiol, rydym yn cefnogi ymarferwyr a dysgwyr i uwchsgilio yn eu meysydd dysgu ac i ddefnyddio technoleg ac addysgeg ddigidol yn hyderus ac yn effeithiol.

Cyfoethogi Ieithyddol a Diwylliannol

Rydym yn cyfrannu'n weithredol at gryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy brofiadau dysgu sy'n meithrin hyder ieithyddol ac yn atgyfnerthu hunaniaeth Gymraeg. Ar yr un pryd, rydym yn ehangu gorwelion dysgwyr drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o ieithoedd, diwylliannau a safbwyntiau rhyngwladol.

Sut Rydym yn Gweithio

Mae e-sgol yn gweithredu drwy ecosystem sefydledig ac esblygol o bartneriaethau a modelau cyflwyno.

Dysgu Proffesiynol

Mae e-sgol yn cynnig cyfleoedd Dysgu Proffesiynol cyfoethog i ymarferwyr ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Ar lefel uwchradd, mae ymarferwyr yn elwa ar gefnogaeth gynhwysfawr i'w galluogi i addysgu'n effeithiol drwy fodelau ar-lein a hybrid, gan gynnwys arweiniad ar ddulliau addysgeg ac arferion digidol sy'n cefnogi profiadau dysgu o ansawdd uchel.

I ymarferwyr cynradd, mae sesiynau byw e-sgol yn darparu profiadau dysgu rhyngweithiol i ddisgyblion, ond hefyd yn gweithredu fel profiadau Dysgu Proffesiynol gwerthfawr i athrawon. Mae ymarferwyr yn dysgu ochr yn ochr â'u dysgwyr, gan elwa ar arweiniad arbenigwyr profiadol ar y sgrin, a thrwy hynny'n cryfhau gwybodaeth bwnc a strategaethau addysgu.

Rhaglenni Cynradd Arloesol

Mae dysgwyr cynradd yn elwa ar ddarpariaeth ddigidol wedi'i thargedu sy'n cefnogi meysydd y cwricwlwm a all fod yn heriol i sefydliadau eu cyflwyno'n gyson, yn aml oherwydd cyfyngiadau capasiti, hyder neu arbenigedd. Trwy brofiadau wedi'u dylunio'n ofalus, mae e-sgol yn ehangu mynediad at ddysgu cyfoethog a deniadol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi lled a dyfnder y cwricwlwm, yn cynyddu ymgysylltiad dysgwyr ac yn meithrin hyder ymarferwyr, gan ddarparu cefnogaeth ymarferol a graddadwy ar gyfer cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth.

Modelau Dysgu Hybrid ac Ar-lein Uwchradd

Mae dysgwyr uwchradd yn elwa ar ddarpariaeth arloesol sy'n cyfuno gwersi ar-lein cydamserol, gweithgareddau anghydamserol a sesiynau wyneb yn wyneb. Mae clystyrau o ddarparwyr yn rhannu ymarferwyr arbenigol, gan alluogi cynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr hyd at 19 oed.

Adnoddau Adolygu Carlam Cymru


Trwy Carlam Cymru, mae e-sgol yn darparu adnoddau adolygu dwyieithog o ansawdd uchel ynghyd â chefnogaeth lles, wedi'u halinio'n agos â chymwysterau cenedlaethol a disgwyliadau'r cwricwlwm. Mae'r llwyfan yn cefnogi dysgu annibynnol gan alluogi dysgwyr i atgyfnerthu dealltwriaeth ac ail ymweld â chysyniadau allweddol tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae Carlam Cymru yn cynnig cynnwys dibynadwy sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm, y gellir ei integreiddio i addysgu, ymyrraeth ac adolygu, gan gefnogi cysondeb, tegwch mewn mynediad a hyder dysgwyr. Mae ap arloesol hefyd ar gael, sy'n hyrwyddo dysgu strwythuredig, hunangyfeiriedig a lles dysgwyr.



Cyd-destun Strategol

Mae e-sgol yn gweithredu mewn tirwedd genedlaethol sy'n cael ei siapio gan:



1. Mae e-sgol yn cefnogi'n uniongyrchol Cymraeg 2050, gweithredu Cwricwlwm i Gymru, tegwch mewn mynediad, a phrosiectau trawsnewid digidol cenedlaethol.

2. Mae heriau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff addysgol, carfanau bach o ddysgwyr a bylchau mewn darpariaeth pynciau arbenigol yn parhau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae modelau ar-lein a hybrid e-sgol yn ymateb yn strategol i'r heriau hyn drwy rannu arbenigedd a chapasiti ledled Cymru, gan osod e-sgol fel partner strategol allweddol wrth gefnogi cynaliadwyedd y cwricwlwm a gwydnwch y system.

3. Mae darparwyr addysg yn gorfod llywio tirwedd ddigidol sy'n newid yn barhaus, gan ddibynnu fwyfwy ar ddarpariaeth ddigidol ddeinamig a chyfoes i gadw'n gyfredol, ehangu'r cwricwlwm, cryfhau cydweithio, a chynnig llwybrau hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n paratoi pobl ifanc Cymru ar gyfer dyfodol sy'n esblygu'n gyflym. Wrth i dechnolegau digidol a deallusrwydd artiffisial barhau i ddatblygu, bydd e-sgol yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel, yn gynhwysol ac yn gyfrifol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelu ar-lein, hygyrchedd, diogelu data, seiberddiogelwch a'r defnydd moesegol o ddeallusrwydd artiffisial, yn ogystal â lleihau rhwystrau sy'n ymwneud â dyfeisiau, cysylltedd a sgiliau digidol.

4. Mae darpariaeth ddigidol yn helpu i gynnal parhad llwybrau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig lle bo heriau wrth gynnig rhaglenni astudio cyflawn.

5. Mae e-sgol yn gweithredu fel galluogwr systemig ac yn ymrwymo i weithio'n agored ac yn gydweithredol gyda rhanddeiliaid o bob math, yn enwedig ar draws system addysg Cymru. Trwy feithrin partneriaethau strategol gyda darparwyr addysg, awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol ac asiantaethau perthnasol, mae e-sgol yn ceisio gwireddu'r blaenoriaethau hyn mewn modd cysylltiedig, cynaliadwy ac ymatebol i gyd-destunau lleol a chenedlaethol.

Blaenoriaethau Strategol e-sgol 2026–2029

Mae blaenoriaethau e-sgol yn adlewyrchu cam nesaf ei datblygiad fel rhaglen genedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r blaenoriaethau'n adeiladu ar sylfeini cadarn o ran darpariaeth a phartneriaethau, gyda data, ymchwil a gwerthuso'n llywio addasiadau parhaus. Bydd eu graddfa a'u cwmpas yn gymesur â lefelau cyllid, cefnogaeth rhanddeiliaid a'r cyd-destun systemig ehangach, gan sicrhau twf cynaliadwy a realistig sy'n cyd-fynd ag anghenion ecosystem addysg Cymru.



Blaenoriaeth 1: **Ehangu**

Ehangu mynediad a chyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr.

Bydd e-sgol yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol drwy barhau i ddatblygu modelau hybrid ôl-14, cynyddu amrywiaeth a dyfnder rhaglenni digidol cynradd, a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

Bydd e-sgol, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a darparwyr cyfredol, yn ymchwilio i ddarpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr nad ydynt mewn addysg lawn amser, gan alluogi cefnogaeth strwythuredig mewn meysydd cwricwlaidd penodol o fewn cyd-destunau amgen. Bydd hyn yn cynnwys archwilio sut y gall darpariaeth ddigidol a hybrid gynnal dilyniant dysgu yn ystod cyfnodau o absenoldeb a chefnogi dysgwyr i ddychwelyd yn hyderus i addysg lawn amser. Yn amodol ar gyllid, bydd e-sgol yn archwilio potensial darpariaeth genedlaethol gydlynol i gefnogi'r maes hwn.

Gan gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 a gweithrediad Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bydd e-sgol yn datblygu a threialu modelau arloesol o Ddysgu Proffesiynol sy'n cefnogi ymarferwyr i gynyddu eu hyder a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy adeiladu ar fodelau llwyddiannus sydd eisoes ar waith ac ar gynlluniau peilot cynnar, bydd e-sgol yn archwilio sut y gellir darparu cefnogaeth hyblyg, ymarferol a graddadwy i ymarferwyr ar draws Cymru, gan gyfrannu at ddatblygu gallu'r gweithlu a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ddatblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg sydd ei angen i gyflawni uchelgeisiau cenedlaethol ar gyfer iaith ac addysg.

Er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ac ymateb i heriau capasiti'r gweithlu, bydd e-sgol yn parhau i gefnogi darparwyr i ehangu a chynnal eu cynnig cwricwlaidd, yn enwedig drwy gryfhau darpariaeth cyfrwng

Cymraeg, gan rannu arbenigedd a chynllunio darpariaeth ar-lein a hybrid hyblyg. Bydd e-sgol hefyd yn archwilio sut y gall modelau cydweithredol o addysgu gefnogi datblygu a chynnal gallu'r gweithlu, gan greu cyfleoedd newydd a mwy hyblyg i ymarferwyr gyfrannu ar draws lleoliadau a chyd-destunau gwahanol. Yn ogystal â chefnogi gwydnwch y gweithlu, gall y modelau hyn leihau teithio diangen a defnydd cysylltiedig o adnoddau, gan gyfrannu at amcanion cynaliadwyedd ehangach.

Caiff Carlam Cymru ei ymestyn a'i fireinio drwy wella hygyrchedd, ehangu'r ystod o adnoddau sydd ar gael, a threialu cefnogaeth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n symud i Gymru, gan gefnogi caffael iaith, ymdeimlad o berthyn, a dilyniant addysgol.

Caiff darpariaeth ar Gam Cynnydd 4 ei dreialu i gefnogi parhad a dilyniant ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd gan atgyfnerthu hyder ieithyddol a llwybrau dilyniant.

Lle bo'n briodol, ac yn amodol ar dystiolaeth o beilotiaid ac ymgysylltiad rhanddeiliaid, bydd e-sgol yn archwilio cyfleoedd i gydweithio â busnesau neu sefydliadau i lywio darpariaeth sy'n canolbwyntio ar sgiliau, yn unol â blaenoriaethau lleol ac anghenion posibl gweithlu'r dyfodol.

Bydd e-sgol hefyd yn datblygu ymhellach ei rôl wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r hyder sydd eu hangen i ffynnu mewn amgylcheddau dysgu a gwaith hybrid. Trwy brofiadau dysgu sy'n defnyddio technoleg yn ystyrlon, cydweithio ar-lein a dysgu annibynnol, bydd e-sgol yn helpu i baratoi pobl ifanc Cymru ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau sy'n nodweddu byd modern.

Blaenoriaeth 2: **Mireinio**

Datblygu ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y defnyddiwr trwy fireinio parhaus.

Bydd e-sgol yn mireinio darpariaeth ar draws pob sector drwy ddileu rhwystrau a chreu profiad 'plug-and-play' i ymarferwyr a dysgwyr.

Caiff prosesau sicrhau ansawdd eu cryfhau, caiff dealltwriaeth o brofiadau'r defnyddwyr ei dyfnhau, a chaiff cylch cyson o werthuso ac addasu ei fabwysiadu. Bydd rhagor o astudiaethau achos yn cael eu datblygu, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau dysgwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid. Bydd yr astudiaethau achos hyn yn darparu tystiolaeth ansoddol gyfoethog i ategu data perfformiad, gan alluogi e-sgol i werthuso deilliannau, deall yr amodau sy'n cefnogi llwyddiant, a rhannu arferion effeithiol er mwyn llywio gwelliant ledled Cymru.

Caiff recordiadau darpariaeth gynradd eu hadolygu, eu gwerthuso a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau parhad o ran aliniad ag anghenion dysgwyr a disgwyliadau'r cwricwlwm.

Bydd mecanweithiau adborth a llais defnyddwyr yn cael eu ehangu, gan gynnwys mwy o fforymau strwythuredig, gan sicrhau bod adborth yn llywio newidiadau i arferion yn weithredol. Bydd yr adolygiad parhaus hwn yn sicrhau bod e-sgol yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion newidiol y sector.

Cynhelir ymchwil i addysgeg ar-lein effeithiol, gyda'r canfyddiadau'n cael eu hymgorffori mewn arferion Dysgu Proffesiynol e-sgol. Er mwyn codi safonau ymhellach, rhoddir mwy o gyfleoedd i athrawon brofi dulliau addysgeg effeithiol, gan gynnwys sesiynau Cam Cynnydd 4, gwersi modelu byw a fideos enghreifftiol.

Bydd mwy o ymweliadau yn cael eu cynnal, gan weithio'n agos gydag arweinwyr ac ymarferwyr i asesu profiad e-sgol o safbwynt y defnyddiwr, gan gynnwys agweddau technegol, addysgegol a threfniadol. Caiff llwyfannau digidol a meddalwedd eu hadolygu'n feirniadol er mwyn sicrhau bod dewisiadau technolegol yn addas i'r diben, yn gyson ac yn gwella profiad y dysgwr.

Bydd adnoddau adolygu Carlam Cymru yn parhau i gael eu mireinio, gyda gwelliannau pellach i hygyrchedd ac aliniad llawn â chymwysterau cenedlaethol presennol a newydd, ynghyd â Chwricwlwm i Gymru.



Blaenoriaeth 3: **Cryfhau**

Adeiladu partneriaethau i sefydlu e-sgol fel partner strategol allweddol o fewn ecosystem addysg Cymru ac fel cyfrannwr gweithredol i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol ym maes dysgu digidol.

Er mwyn cryfhau e-sgol fel rhan annatod o system addysg genedlaethol Cymru, bydd partneriaethau strategol hirdymor gydag awdurdodau lleol, darparwyr a rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu ffurfioli, gan sicrhau cysondeb, eglurder a pherchnogaeth ar y cyd ar draws sefydliadau.

Cefnogir hyn drwy ddynodi Llysgenhadon e-sgol, a fydd yn gweithredu fel canolfannau arfer effeithiol, arloesedd a chymorth rhanbarthol.

Bydd e-sgol yn mireinio ei strwythur staffio a'i fodel gweithredu er mwyn sicrhau gwydnwch sefydliadol, eglurder rolau a chynaliadwyedd hirdymor, gan alluogi'r sefydliad i ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar draws y system addysg. Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, bydd e-sgol yn cynnal trefniadau llywodraethu clir ac atebol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr a phartneriaid i egluro rolau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau cyffredin. Bydd tystiolaeth, anghenion dysgwyr a'r cyllid sydd ar gael yn llywio'r gwaith cynllunio a'r defnydd o adnoddau, gan alluogi e-sgol i flaenoriaethu darpariaeth yn dryloyw ac ymateb mewn modd cynaliadwy i newidiadau ar draws y system addysg.

Bydd rhaglenni mentora pwrpasol yn cael eu datblygu i gefnogi ymarferwyr sy'n newydd i ddarparu cyrsiau hybrid neu o bell, gan gryfhau hyder, ansawdd a chysondeb dros amser. Bydd y gefnogaeth hon yn helpu i feithrin arbenigedd ymhlith ymarferwyr ac yn cyfrannu at weithlu cynaliadwy sy'n gallu darparu profiadau dysgu digidol o safon uchel.

Er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y system gyfan o effaith e-sgol, bydd nifer yr ymweliadau wedi'u targedu yn cynyddu,

gan ymgysylltu â dysgwyr, ymarferwyr a thimau arwain i ddeall profiad e-sgol o'u safbwyntiau nhw. Bydd y ffocws ar adnabod, gwerthuso a dogfennu arferion effeithiol, gan gyfrannu at astudiaethau achos sy'n benodol i bynciau ac i Feysydd Dysgu a Phrofiad y gellir eu rhannu ledled Cymru i gefnogi gwelliant ac arloesedd.

Bydd rhwydweithiau rhanbarthol o ymarferwyr e-sgol yn cael eu sefydlu, gyda chyfleoedd Dysgu Proffesiynol rheolaidd bob tymor yn canolbwyntio ar arloesedd, cydweithio a rhannu arferion effeithiol ar draws sefydliadau a chyd-destunau. Bydd y rhwydweithiau hyn yn cryfhau hunaniaeth broffesiynol, yn annog cefnogaeth gan gymheiriaid a chyfnewid gwybodaeth, ac yn hyrwyddo safonau cyson ledled Cymru.

Bydd e-sgol yn sefydlu ei hun fel cyfrannwr cydnabyddedig at drafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol ynghylch dysgu digidol, hybrid ac o bell. Trwy bartneriaethau â sefydliadau tebyg, sefydliadau addysg uwch, cyrff ymchwil a systemau addysg o fewn a thu hwnt i Gymru, bydd e-sgol yn rhannu arbenigedd, yn cyfnewid arferion effeithiol ac yn cyfrannu at ymchwil ac arloesi cydweithredol. Bydd y perthnasoedd hyn yn cefnogi gwelliant parhaus, yn darparu cyfleoedd ar gyfer meincnodi ac yn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r datblygiadau diweddaraf ym maes addysg ddigidol yn fyd-eang.

Bydd e-sgol hefyd yn archwilio ffyrdd o gydnabod a dathlu llwyddiant ar draws y system, gan gefnogi darparwyr i gydnabod cyfranogiad a chyflawniad dysgwyr o fewn darpariaeth e-sgol, yn ogystal ag ymgysylltiad a datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Bydd hyn yn cyfrannu at ddiwylliant proffesiynol cadarnhaol, cymhelliant ac ymgysylltiad cynaliadwy, gan atgyfnerthu gwerth cydweithio, arloesedd ac ymdrech ar y cyd.

Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus, bydd arferion hunanwerthuso mwy soffistigedig yn cael eu datblygu, gan gasglu adborth wedi'i dargedu ar hyrwyddo, cyfathrebu a chefnogaeth i leoliadau addysgol. Bydd prosesau sicrhau ansawdd mewnol cadarn yn cael eu cynnal ochr yn ochr â defnyddio adborth rhanddeiliaid allanol, tystiolaeth ymchwil a gweithgarwch meincnodi i werthuso effaith, adnabod meysydd i'w datblygu a mireinio'r ddarpariaeth ymhellach.

Blaenoriaeth Drawsdoriadol: Data, Ymchwil a Gwerthuso

Ar draws pob blaenoriaeth, bydd e-sgol yn:



Fframwaith Perfformiad

Er mwyn sicrhau atebolrwydd, uchelgais a gwelliant parhaus, bydd e-sgol yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd drwy fframwaith clir o Amcanion a Chanlyniadau Allweddol (OKRs). Cefnogir hyn gan gyfuniad cytbwys o ddata meintiol, barn broffesiynol, llais defnyddwyr a thystiolaeth fyfyriol. Bydd dangosyddion a meincnodau yn cael eu datblygu a'u mireinio'n barhaus drwy gydol oes y strategaeth, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur nid yn unig yn ôl cwmpas y ddarpariaeth a lefelau gweithgarwch, ond yn bwysicach fyth yn ôl y graddau y mae e-sgol yn cyfrannu at brofiadau dysgu o ansawdd uchel, mynediad teg, a gwelliant ar draws y system sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, ymarferwyr a'r sector ehangach.

Bydd y dull hwn yn galluogi e-sgol i addasu'n brydlon ac yn rhagweithiol i newidiadau mewn polisi ac yn yr ecosystem addysg, gan sicrhau aliniad strategol parhaus, perthnasedd a gwelliannau ystyrlon i'w ddarpariaeth.

Er bod y Cynllun Strategol hwn yn gosod y cyfeiriad strategol hirdymor, bydd cynlluniau gweithredol blynyddol yn nodi Amcanion a Chanlyniadau Allweddol (OKRs), cerrig milltir a dangosyddion perfformiad manwl i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth a monitro cynnydd yn flynyddol.

Bydd mesurau gwaelodlin ar gyfer pob Canlyniad Allweddol yn cael eu sefydlu drwy'r cynllun gweithredol blynyddol cyntaf ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol wedi hynny.



1. Safonau a Phrofiad

Bydd e-sgol yn blaenoriaethu ansawdd yn hytrach na maint, gan sicrhau bod profiad y dysgwr a'r ymarferydd yn llywio'r gwaith o ddylunio, darparu a gwella ei ddarpariaeth yn barhaus.

Amcan:

Sicrhau profiad dysgu cyson, hygyrch ac o ansawdd uchel i ddysgwyr ac ymarferwyr.

Canlyniadau Allweddol erbyn 2029:



O leiaf **80%** o **ddysgwyr** yn nodi eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar ddarpariaeth e-sgol



O leiaf **80%** o **ymarferwyr** yn nodi eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar ddarpariaeth e-sgol



Mae o leiaf **90%** o'r **ymarferwyr** yn nodi cynnydd yn eu hyder yn eu hymarfer proffesiynol yn sgil darpariaeth e-sgol



Mae gwerthusiadau **sicrhau ansawdd** yn cadarnhau darpariaeth gyson o ddysgu ar-lein a hybrid o ansawdd uchel

2. Mynediad, Tegwch a Chynhwysiant

Bydd e-sgol yn canolbwyntio ar ehangu mynediad i ddysgwyr drwy gynllunio darpariaeth sy'n lleihau rhwystrau gwirioneddol ac yn galluogi cyfranogiad ystyrlon i bawb.


Amcan:


Ehangu mynediad at ddysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr, beth bynnag fo'i amgylchiadau.

Canlyniadau Allweddol erbyn 2029:

Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at **gyfleoedd newydd**







Mae pob cam cynnydd o **Gam Cynnydd 2 (GC2)** hyd at **ôl-16** yn cael mynediad at ddarpariaeth **briodol gan e-sgol**

Cynnydd yng nghyfranogiad dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel





Mae llwybrau dysgu **cynhwysol a hyblyg** wedi'u ehangu ledled **Cymru**


3. Effaith ar y Cwricwlwm a'r Gymraeg

Bydd e-sgol yn ychwanegu gwerth clir at y cwricwlwm drwy ehangu cyfleoedd dysgu a chryfhau'r Gymraeg, gan gefnogi llwybrau cynhwysol a chynaliadwy i ddysgwyr.

Amcan:

Cryfhau ehangder, cydlyniad a dilyniant y cwricwlwm drwy ddarpariaeth o ansawdd uchel.

Canlyniadau Allweddol erbyn 2029:



O leiaf **80%**

o **ddysgwyr** yn nodi bod e-sgol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu dilyniant addysgol

Mae o leiaf



o'r **ymarferwyr** sy'n ymgymryd â Dysgu Proffesiynol e-sgol yn nodi cynnydd yn eu hyder i addysgu drwy **gyfrwng y Gymraeg**



Mae cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a **dwyieithog** wedi'u ehangu ledled Cymru

4. Arweinyddiaeth, Capasiti a'r System

Bydd e-sgol yn gweithio mewn partneriaeth â'r system addysg ehangach, gan gydweithio'n agored i rannu arbenigedd a meithrin capasiti hirdymor mewn sefydliadau addysgol.

Amcan:

Sefydlu e-sgol fel partner strategol sy'n cryfhau capasiti a chydnerthedd yr ecosystem addysg.

Canlyniadau Allweddol erbyn 2029:



Cynnydd o leiaf 100%

yn nifer y partneriaethau ffurfiol a sefydlir gyda sefydliadau addysgol



Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ymgysylltu'n weithredol ag e-sgol

Mae **90%** o'r sefydliadau partner yn nodi bod e-sgol wedi helpu i fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd y cwricwlwm





Mae **e-sgol** yn cael **ei gydnabod yn genedlaethol** fel partner strategol dibynadwy ar gyfer dysgu hybrid ac ar-lein

Mae tystiolaeth a gynhyrchir gan e-sgol yn llywio polisïau, canllawiau a datblygiadau strategol cenedlaethol yn gynyddol.



5. Dysgu Sefydliadol a Gwelliant Parhaus

Bydd e-sgol yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio data, ymchwil ac adborth i addasu'n rhagweithiol a sicrhau gwelliant parhaus yn ei ddarpariaeth.

Amcan:


Defnyddio data, ymchwil ac adborth i lywio gwelliant parhaus a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Canlyniadau Allweddol erbyn 2029:



Mae **100%** o ddatblygiadau gwasanaeth sylweddol yn cael eu llywio gan adborth rhanddeiliaid

Caiff adroddiadau effaith blynyddol eu **cyhoeddi** a'u **rhannu** â rhanddeiliaid





Mae canfyddiadau gwerthuso yn llywio **gwelliant parhaus** darpariaeth e-sgol mewn modd amlwg

Rhennir tystiolaeth ac arfer effeithiol yn rheolaidd ar draws y sector





Mae e-sgol yn cyfrannu at sefydlu Cymru fel arweinydd cydnabyddedig ym maes arloesedd mewn dysgu hybrid



Casgliad

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi sut y bydd e-sgol yn adeiladu ar ei gryfderau presennol i ymateb i anghenion newidiol dysgwyr, ymarferwyr a'r system addysg yng Nghymru.

Trwy ehangu mynediad, mireinio ansawdd a chryfhau partneriaethau, bydd e-sgol yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, waeth beth fo'u lleoliad, eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Erbyn 2029, bydd llwyddiant yn cael ei adlewyrchu nid yn unig yn nifer y dysgwyr a gefnogwyd neu'r cyfleoedd a grëwyd, ond yn y graddau y mae e-sgol wedi cyfrannu at system addysg fwy teg, mwy cydweithredol a mwy gwydn i Gymru.

Bydd hynny'n golygu mwy o ddysgwyr yn cael mynediad at gwricwlwm eang a pherthnasol, mwy o ymarferwyr yn hyderus mewn modelau digidol a hybrid, a mwy o gydweithio rhwng partneriaid er budd dysgwyr ledled y wlad.

Wrth weithredu'r cynllun hwn, bydd e-sgol yn parhau i arloesi, cydweithio a dysgu, gan sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i ehangu cyfleoedd a lleihau rhwystrau i ddysgu.

Ecwiti mewn Addysg trwy Dechnoleg.

Pob dysgwr. Pob rhan o Gymru. Pob cyfle.



ymholiadau@e-sgol.cymru
e-sgol.cymru